Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

Cylchgronau Cymru
Welsh Journals Online

Awdur
Author

Dafydd Jenkins,

Teitl erthygl

Article title

"Cyfreithiau Hywel Dda o lawysgrif Coleg Iesu, Rhydychen, LVII."

Teitl cylchgrawn

Journal title

Cylchgrawn Hanes Cymru / Welsh History Review

Welsh history review Cylchgrawn hanes Cymru.

Rhifyn
Issue

Vol. 1, no. 1 (1960), p. 106.

url

Crewyd a chyhoeddwyd y fersiwn digidol hwn o'r cylchgrawn yn unol â thrwydded a roddwyd gan y cyhoeddwr. Gellir defynddio'r deunydd ynddo ar gyfer unrhyw bwrpas gan barchu hawliau moesol y crewyr.

The National Library of Wales has created and published this digital version of the journal under a licence granted by the publisher. The material it contains may be used for all purposes while respecting the moral rights of the creators.

JISC

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

CYFREITHIAU HYWEL DDA, o lawysgrif Coleg Iesu, Rhydychen, LVII. Copïwyd a golygwyd gan Melville Richards, M.A. Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1957. Tt. x, 151. 8s. 6ch.

Llawysgrif o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg neu ddechrau'r bymthegfed—o'r un cyfnod, ac efallai yn yr un sgrifen, â'r Llyfr Coch o Hergest—yw'r un a olygwyd gan Mr. Richards. Llawysgrif gyfansawdd yw hi, a gellir edrych arni fel yr hynaf o'i dosbarth—dosbarth sy'n cynnwys hefyd lawysgrif Llansteffan 116 (a gyhoeddwyd gan Mr. Timothy Lewis yn 1912). Defnyddiwyd hi ar gyfer *Leges Wallicae* 1730 ac *Ancient Laws* 1841, a galwyd *J* arni yn y ddau; ond nes cael yr argraffiad hwn yr oedd yn amhosibl gwybod beth yn union a gynhwysai heb droi at y llawysgrif ei hun.

Gwnaeth Mr. Richards felly gymwynas fawr wrth baratoi'r argraffiad hwn; a thrueni fod rhaid dweud y buasai'r gymwynas yn sylweddol fwy pe gwnelsid ychydig mwy o waith golygyddol. Ond yn wir mae peth bai ar Wasg y Brifysgol (neu ar Fwrdd y Gwybodau Celtaidd) am fodloni ar gyhoeddi'r llyfr heb fynnu o leiaf ychwanegu geirfa iddo—er mwyn y cyfreithiwr a fyddai'n ei defnyddio'n fynegai i'r testun os nad er mwyn yr ieithydd. Byddai'r 'Mynegai i'r tudalennau cyfatebol yn *Ancient Laws* a *Llyfr Blegywryd*' hefyd yn haws ei ddefnyddio petai'n cyfeirio at dudalennau'r argraffiad yn lle tudalennau'r llawysgrif.

Yn y mynegai hwnnw gwnaeth Mr. Richards ran fawr o'r gwaith caib a rhaw ar gyfer cymhariaeth rhwng y llawysgrif hon a llawysgrifau cyfansawdd eraill: awgrymaf un cywiriad ynddo (sef darllen '269.19-277 =A.L. i. 112.17—124.16, 126.3-9) er mwyn pwysleisio na ellid dibynnu ar *Ancient Laws* am fynegiad clir o gynnwys y llawysgrif. Hyfryd fydd gallu troi at yr argraffiad er mwyn gwybod pa ffurf sydd gan *J* ar adnod yn Llyfr Iorwerth (*Venedotian Code* Aneurin Owen), oherwydd swyn arbennig y llawysgrif yw'r modd y mae'n ychwanegu defnydd o'r llyfrau eraill at gopi o Lyfr Blegywryd. Peryglus fyddai oraclu am amcanion ei lluniwr wrth ddewis y defnydd hwnnw; dichon iddo fwrw i mewn bopeth nad oedd yn cofio ei fod eisoes yn y llyfr, ond dichon hefyd iddo ychwanegu'r pethau a oedd o'r gwerth ymarferol mwyaf yn ei gyfnod ef. Dyna'r ffordd y mae'r meddwl yn troi wrth sylwi fod y bennod ar Gyfar, o Lyfr Iorwerth, yma'n gyflawn; ond beth bynnag am hynny, hwn yw'r testun mwyaf cynhwysfawr o'r Cyfreithiau a gyhoeddwyd yn y ganrif hon: mae ynddo bron cymaint arall ag sydd yn *Llyfr Blegywryd*, er enghraifft. Bydd iddo gan hynny werth arbennig i'r darllenydd cyffredinol yn ogystal ag i'r ymchwiliwr cyfraith.

DAFYDD JENKINS.

Aberystwyth.